

Patrwm cyflwyno O fis Hydref i fis Mehefin
Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â'r [fanyleb gyffredinol](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- gradd neu gymhwyster perthnasol cyfatebol i ymarferwyr mewn maes pwnc priodol, er enghraifft addysg a gofal y blynyddoedd cynnar; astudiaethau plentyndod cynnar; seicoleg ddatblygiadol; datblygiad plentyn neu Statws Athro Cymwysedig yn y blynyddoedd cynnar;
- profiad o weithio mewn un cyd-destun plentyndod cynnar neu fwy
- gwybodaeth am theori, addysg ac ymarfer ym maes plentyndod cynnar, a dealltwriaeth ohonynt. Dylai gwybodaeth ddamcaniaethol gynnwys dealltwriaeth o'r safbwynt diwylliannol-gymdeithasol ar blentynod cynnar a dysgu.
- gwybodaeth am faterion cyfoes, polisi a darpariaeth (gan gynnwys unrhyw fentrau diweddar gan y llywodraeth), yn enwedig yn y DU.
- profiad o weithio gyda myfyrwyr sy'n oedolion a chefnogi myfyrwyr o amrywiaeth eang o gefndiroedd nad ydynt, o bosibl, wedi astudio ar y lefel hon o'r blaen.
- profiad o gefnogi sgiliau llythrennedd ac astudio academaidd myfyrwyr

Byddai'n fanteisiol pe byddech yn meddu ar y canlynol:

- Profiad o gefnogi ac addysgu myfyrwyr sy'n gweithio mewn amgylchedd ar-lein
- Profiad o weithio mewn tîm a chydweithio ag eraill er mwyn darparu hyfforddiant.

Gwybodaeth ychwanegol

- Rhaid i ddarlithwyr cyswllt E109 fod ar gael i gymedroli eu fforwm grŵp tiwtor ar-lein drwy gydol y modiwl.
- Fel rhan o'u hymrwymiad i ddatblygiad personol staff, byddai disgwyl i Ddarlithwyr Cyswllt E109 gwblhau hyfforddiant penodol ar ddefnyddio amgylcheddau addysgu ar-lein Y Brifysgol Agored (er enghraifft *OU Live*).
- Bydd hyfforddiant ar y modiwl hwn yn cynnwys gweithio fel rhan o dîm o Ddarlithwyr Cyswllt mewn grŵp clwstwr. Byddwch yn gweithio fel rhan o dîm cydweithredol, gan rannu tasgau hyfforddi ar gyfer tiwtorialau wyneb yn wyneb a thiwtorialau ar-lein. Bydd tiwtorial ar-lein cyfatebol ar gyfer pob tiwtorial wyneb yn wyneb, a fydd yn ymdrin â chynnwys tebyg i'r hyn a gyflwynir yn y tiwtorialau wyneb yn wyneb.

Credydau a ddyfernir i'r myfyriwr am gwblhau modiwl yn llwyddiannus:	60
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	4
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	2
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	8
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	7